

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Kate Owen (Cefn Meiriadog) a gweddill y teulu yn eu profedigaeth fawr o golli Emyr ddechrau mis Awst. Bu'n ofalus iawn o'i fam, ac roedd yn frawd a brawd yng nghyfraith ffyddlon i Meirion a Carol. Gweddiwn y byddant hwy a gweddill y teulu yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth amdano. Yn yr un modd, cydymdeimlwn ag Eleri a Rheinallt Morris (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth mam Eleri, Mrs Margaret Elizabeth Jones yn ystod yr haf, a hefyd Edna ac Ifor Ellis (Groes) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth mam Edna, Mrs Hannah Mary Evans, yr wythnos ddiwethaf. Mae'n dymuniadau yr un modd iddynt hwythau fel teuluoedd i adnabod tangnefedd a digon Duw'r dyddiau hyn.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd y mae Gwyneth Williams (Llanfair). Anfonwn ein cofion anwylaf ati hi ac at eraill o'r Fro fu yn yr ysbyty yn ystod gwyliau'r haf – Kate Owen (Cefn Meiriadog), Heather Jones (Llansannan), a Haydn Young (Llanefydd), ac eraill o'r Fro nad ydynt am gael eu henwi. Mae'n dda cael adrodd fod John H. Williams (Llanefydd) wedi dod adref ar ôl cyfnod reit faith yn yr ysbyty. Diolchwn am y gofal a gafodd tra yno, ac am y gofal y mae hefyd yn ei gael adref gan y teulu a'r gofawyr. Mae sawl un arall wedi cael anffawd ond heb orfod aros dros nos yn yr ysbyty, ac mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn bob un o'r cleifion i ofal Duw a hyderwn y byddant yn parhau i wella ac i gryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Miss W J Roberts a Mrs Kate Owen, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Llongyfarchiadau i Elgan ac Elen Jones (Saron) ar enedigaeth mab, Ffredi Glynne, brawd bach i Anni Glynne; ac i Dona Mair Jones a Kevin (Llansannan) ar enedigaeth mab, Albi Sion, brawd bach i Aron a Lela.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gari Evans (Saron) ac Alaw ar eu priodas ddiweddd mis Awst. Dymunwn fendithion lu iddynt i'r dyfodol.
(Os ydw i wedi gadael enw rhywun allan, rwy'n ymddiheuro'n fawr. Os felly, plis wnewch chi adael i un ohonom wybod, rhag ofn nad yw'r wybodaeth gennym. Diolch.)

Darllenid Wythnos Nesaf

2 Samuel 6:20-23 (BCND tud.286 / BCN tud.261)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Medi 2017

Darllenid y Dydd

2 Timotheus 2:8-10
(BCND tud.234 / BCN: tud.214)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i'r oedfaon heddiw ac i Llais Bro Aled cyntaf tymor yr Hydref. Gobeithio i bawb ohonoch fwynhau'r haf a'ch bod yn edrych ymlaen at ailgychwyn gweithgareddau a chyfarfodydd arferol yr eglwys a'r Fro. Gweddiwn ar i'r Ysbryd Glân barhau i'n hadnewyddu er mwyn i ni brofi sêl o'r newydd i addoli a gwasanaethu'r Arglwydd gyda'n gilydd.

Dros fis Awst cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn ardal Beddgelert i gofio'r diwygiad grymus fu yno ddau gan mlynedd yn ôl. Ac ar draws y byd bydd gwahanol weithgareddau yn cael eu cynnal i goffáu 500 mlynedd ers dechrau'r Diwygiad Protestannaidd. Rydym ni yma ym Mro Aled hefyd â rhan mewn dathliadau arbennig ar ddechrau mis Hydref wrth i ni ddathlu 450 o flynyddoedd ers i'r Testament Newydd gael ei gyhoeddi yn y Gymraeg, gyda gŵr o Lansannan, William Salesbury yn bennaf gyfrifol am ei gyfieithu.

Gallaf yn hawdd ddychmygu rhai o ddarllenwyr Llais Bro Aled yn ochneidio wrth ddarllen y paragraff blaenorol gan holi eu hunain – pam fod angen sôn cymaint am y gorffennol trwy'r amser? Onid Duw byw sydd gennym a galwad i ni ddilyn Iesu heddiw? Wrth gwrs fod yr Arglwydd yn ein galw i fod yn ddisgyblion ac yn dystion iddo mewn cyfnodau penodol, ond ffolineb o'r mwyafrwyddai diystyru beth mae Duw wedi ei wneud yn y gorffennol. Pan ddarllenwn trwy'r Hen Destament gwelwn batrwm yn codi ei ben yn aml wrth i bobl Dduw anghofio'r hyn a ddigwyddodd cynt, cyn iddynt grwydro mewn ffyrdd rhyfeddol o debyg i'w cyndeidiau! A beth oedd cyngor yr Apostol Paul i Timotheus yn 2 Timotheus 2:8? 'Cofia Iesu Grist: ei gyfodi oddi wrth y meirw, ei eni o linach Dafydd, yn ôl yr Efengyl yr wyf fi yn ei phregethu.' Mae'r broses o gofio pwy yw'r Arglwydd, a beth a wnaeth yn y gorffennol (yn enwedig wrth iddo ddod yn gnawd yng Nghrist) yn rhan allweddol o'n ffydd ni rwan, ac i'r dyfodol. Ac felly wrth i ni ddathlu'r hyn a fu, rydym am wneud (o leiaf!) dau beth. Yn gyntaf, rydym am ddiolch i'r Arglwydd am ei ffyddlondeb a'i ras gan ein bod yn parhau i dderbyn y fath fendith trwy foli Duw gydag emynau Pantycelyn a thrwy allu darllen Gair Duw yn ein hiaith ein hunain. Ond yn ail, rydym am i'r cofio a'r diolch droi'n weddio disgwylgar y bydd ein Tad Nefol unwaith yn rhagor yn trugarhau wrthym. Gweddiwn am i Gristnogion dyfu yn eu hadnabyddiaeth o'u Gwardwr ac i ni fyw bywydau sy'n amlygu Ei gariad mewn gair a gweithred. A gofynnwn ar i Dduw weithredu'n nerthol eto trwy'r Ysbryd fel bod Ei Efengyl yn cael ei chyhoeddi'n eang a phobl o bob cefndir ac oed yn dod i gredu yn Iesu Grist.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 5^{ed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu. Edrychwn ymlaen hefyd i gael cwmni Elin Bryn Williams fydd yn sôn ychydig am ei gwaith gyda myfyrwyr Undebau Cristnogol ar draws gogledd Cymru.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd a'r oedolion am 11.15.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 6^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656), os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

I ddod

- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Iau, Medi 14eg am 7.00. Bydd y Parch. Ddr Rhodri Glyn yn ein hannerch ar 'Dylanwad y Diwygiad Protestannaidd ar yr Eglwys Heddiw'. Yn dilyn hynny trafodir y materion ag sydd yn ymwneud â'r Cwrdd Chwarter.
- **CYFARFOD GWOBROWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Iau, Medi 28ain yn Eglwys Emaus, Bangor am 3.00.
- **DATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG** – Sul arbennig i'r Fro yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd dydd Sul, Hydref 1af. Oedfa'r bore am 10.30 i'r teulu cyfan ac oedfa'r hwyr am 6.00. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Mercher, Tachwedd 15fed o 10.00 – 3.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.